# DEALL COTWM

**Ar gyfer Ysgolion Uwchradd**

**Rhan 1: Ble mae cotwm yn tyfu?**

**Rhan 2: O ble mae ein dillad yn dod?**

**Rhan 3: Masnach**

## Rhan 1: Ble mae cotwm yn tyfu?

### Amcanion:

Darllen a defnyddio mapiau o'r byd.

### Beth i'w wneud:

Gofyn i ddisgyblion edrych mewn atlas a marcio ar fap amlinell y gwledydd canlynol lle mae cotwm yn cael ei dyfu:

Tsiena; Pacistan; Twrci; Cymanwlad y Gwladwriaethau Annibynnol (yr Undeb Sofietaidd gynt); Unol Daleithiau'r America; Tanzania; Zambia; Uzbekistan;

Senegal*; Mali*; India* Camerŵn*, Yr Aifft*, Brasil*, Burkina Faso* a Kazikistan*

* Mae Cotwm Masnach Deg yn cael ei dyfu yma

Gofynnwch i ddisgyblion ddewis tair gwlad o'r rhestr uchod a gwneud ymchwil i'r pynciau canlynol

- Pam mae cotwm yn tyfu yn y gwledydd a ddewisoch chi?
- Oes yna unrhyw anawsterau wrth dyfu'r cnwd yma?
- Beth yw'r 3 prif allforyn yn y gwledydd a ddewisoch chi?
- Pa mor bwysig yw allforio i'ch economi?

# Capsiynau lluniau – o'r hedyn i'r siop

Y broses tyfu cotwm – parwch y prosesau isod gyda'r llun cywir, a rhowch nhw yn y drefn gywir.

1. PLANNU A CHYNAEAFU. Hadau cotwm yn aeddfedu bedwar mis ar ôl iddyn nhw gael eu plannu. Mae'r codennau hadau a ddarlunnir yn cael eu galw'n hadlestri. Mae pob hadlestr yn cynnwys tua 30 o hadau. Mae'r hadau wedi eu gorchuddio â miloedd o ffibrau cotwm, sy'n gwneud i'r hadlestri edrych yn wyn a blewog.

2. TRIN. Gwahanu'r hadau â'r ffibrau cotwm. Gelwir hyn yn 'trin'. Pan fo cotwm yn cael ei gynaeafu, mae'r hadau a'r ffibrau'n cael eu casglu gyda'i gilydd. Rhaid tynnu'r hadau allan er mwyn gadael dim ond y ffibr cotwm, sy'n cael ei alw'n lint. Mae trin digwydd mewn melin gotwm. Mae'r hadau a'r amhureddau'n cael eu tynnu allan gan beiriannau ac mae'r lint pur yn cael ei gario a'i lwytho ar dryc i gael ei anfon i'r cam nesaf. Mae'r gwaith yn y melinau cotwm yn waith caled.

3. NYDDU. Cyn i'r cotwm gael ei ddefnyddio i wneud deunydd mae'n rhaid iddo gael ei nyddu'n edau.. Mae'r lint clymog yn cael ei ymestyn a'i droi o gwmpas yr olwyn nes ei fod yn ffurfio edafedd di-dor. Mae yna nifer fawr o ffyrdd i droelli'r lint, yn dibynnu ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio. Yma fe welwn ni wlân yn cael ei droelli i ffurfio conau mawr.

4. GWEHYDDU. Gwehyddu gwlân ar wŷdd llaw. Yn yr India mae tua 17 miliwn o bobl yn gweithio fel gwehyddion gwŷdd llaw.


5. LLIFO. Mae'r cotwm yma'n cael ei lifo â llaw. Gall cotwm gael ei lifo ar nifer o wahanol adegau, cyn neu ar ôl printio. Mae lliain gorffenedig yn hongian ar y lein, yn aros i gael ei daenu i'w sychu. Mae yna 300 o wahanol blanhigion yn yr India sy'n rhoi lliwiau ar gyfer llifo.

6. PRINTIO. Printio patrwm ar y cotwm gan ddefnyddio bloc pren â chynllun wedi'i gerfio arno. Yn aml iawn mae cynlluniau  blodau sydd ar y rhain. Mae'r bloc yn cael ei roi mewn cynhwysydd llawn llifyn ac yna'n cael ei bwyso ar y lliain â llaw. Mae'r rhan fwyaf p brintio bloc yn cael ei wneud yn nhaleithiau gogledd orllewin India, megis Gujarat. Mae printio sgrin yn ddewis arall ar gyfer printio ar ddefnydd.

7. PWYTHO. Gwnïo lliain cotwm i wneud dillad. Mae tua wyth miliwn o bobl yn gweithio yn y diwydiant dillad o gwmpas y byd. Mae'r amodau yn y ffatrïoedd yn galed. Mae merched yn dueddol o gael eu talu llai am y gwaith maen nhw'n ei wneud.

8. SIOPA. Dewis dillad mewn siop ym Mhrydain. Mae'r diwydiant dillad yn gwneud llawer o arian, ond faint ohono sy'n mynd i'r bobl yn y wlad sy'n gwneud y dillad?

















# Rhan 2: O ble mae ein dillad yn dod?

## Amcanion:

Deall taith eitem o ddillad
Deall ein bod yn dibynnu ar nifer o wahanol wledydd am y dillad rydyn ni'n eu gwisgo
Casglu tystiolaeth fel ffordd o ymchwilio i bwnc

## Beth i'w wneud:

**Labeli dillad**
Yn yr ystafell ddosbarth, gofynnwch i ddisgyblion gynnal arolwg ac edrych ar darddle cynifer o eitemau o'u dillad ag y gallan nhw. Fel dosbarth crëwch restr o'r holl wahanol wledydd rydyn ni wedi masnachu â nhw. Nawr lluniwch graff i ddangos y gwledydd cynhyrchu mwyaf cyffredin. Efallai y byddai disgyblion yn hoffi meddwl am gwestiynau eraill ar gyfer eu harolwg. Efallai hefyd y byddan nhw'n darganfod bod eu dillad wedi cael eu gwneud ym Mhrydain, ond gan ddefnyddio cynnyrch na chafodd ei dyfu yma, megis cotwm.

**Jîns**
Mae denim (gaiff ei ddefnyddio i gynhyrchu jîns) yn cael ei wneud o gotwm. Mae wedyn yn cael ei weu mewn modd arbennig i greu defnydd y jîns.


Os yn bosibl rhowch bâr o jîns ar gyfer y disgyblion (neu gofynnwch iddyn nhw ddod â jîns i'r ysgol gyda nhw). Gan weithio mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion restru holl wahanol rannau pâr o jîns: sips, pwytho, botymau. Defnydd (wedi ei lifo, ei wau ac ati). Gofynnwch i ddisgyblion i gofnodi eu hatebion.

Ydyn nhw'n meddwl mai un person sy'n gyfrifol am hyn i gyd? Mae gwahanol brosesau'n cael eu gwneud mewn gwahanol wledydd. Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu i faint o wledydd mae pâr o jîns wedi teithio cyn cyrraedd defnyddiwr ym Mhrydain. Gofynnwch iddyn nhw roi rhesymau am eu hatebion a rhestru'r gwledydd posibl sy'n cymryd rhan. Os ydyn nhw'n ei chael yn anodd, dechreuwch trwy ddweud wrthyn nhw y gall fod yna hyd at 10 o wledydd sy'n rhan o broses cynhyrchu pâr o jîns. Gallwch ddechrau trwy ddadansoddi'r broses (pigo cotwm, gwehyddu, gwau, llifo, botymau, labeli, gwnïo). Mae'r atebion ar y map isod (gallwch eu dosbarthu i ddisgyblion ar ôl iddyn nhw geisio dod i'w casgliadau eu hunain).

**Cwestiynau i'w Trafod:**

- Pam fod angen i un pâr o jîns deithio mor bell wrth iddo gael ei wneud?
- Sut mae cynhyrchu byd eang yn effeithio'r amgylchedd?
- Sut mae'r cynhyrchu byd eang yn effeithio economi neu bobl y gwahanol wledydd?
- Sut mae'r cynhyrchu byd eang yma'n dylanwadu ar amodau gwaith

**Adnodd A: Siwrnai pâr o jîns**




**Adnodd B: Ystyriwch gost pâr o jîns**



# Rhan 3: Masnach

## Amcanion:
Helpu disgyblion i ddeall y cysyniad o fasnachu fel gweithgaredd byd eang.
Archwilio costau cynhyrchu eitem o ddillad, a phwy sy'n gwneud arian ar y gwahanol adegau
Holi ynglŷn â thegwch dosbarthu refeniw

## Beth i'w wneud:
Defnyddiwch adnodd B (neu ddarlun o bâr o jîns) a gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu o gwmpas yr ymyl, gan restru costau pâr o jîns. Fe allan nhw restru defnyddiau, tâl gweithwyr, cludiant ac yn y blaen. Yr adeg yma mae'n ymarfer defnyddiol i gael y disgyblion i feddwl am y gwahanol gostau a'r gwahanol gamau mewn cynhyrchu. (Gallai ymestyniad ar gyfer disgyblion hŷn gynnwys rhestru costau cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd, ac ymchwilio i'r materion hynny).

Rhowch gopi i'r disgyblion o'r gadwyn gyflenwi sy'n nodi pwy sy'n gwneud arian yn ystod cynhyrchu pâr o jîns (adnodd C). Rhannwch y dosbarth y grwpiau o 5, gyda phob person yn cynrychioli gwahanol ran o'r gadwyn gyflenwi. Gallan nhw wisgo bathodynnau ag enwau arnyn nhw fel bod eraill yn gwybod pwy ydyn nhw.

***Atebion***
*Manwerthwr – 50% (£15)*
*Cwmni Dillad Rhyngwladol(nod masnach) – 25% (£7.50)*
*Cludwr – 11% (£.3.30)*
*Perchennog y Ffatri – 13% (£3.90)*
*Gweithiwr – 1% (30p)*

- Gofynnwch i'r disgyblion drafod mewn grwpiau faint ddylai pob person ei gael am gynhyrchu pâr o jîns. Dywedwch wrthyn nhw am beidio â phoeni am gyfanswm y pris eto. Dylai disgyblion gofnodi pob swm yn y golofn 'Cyfran Gychwynnol' yn y siart (adnodd D).
- Nawr dywedwch wrth y disgyblion mai £30 yw cost y jîns, a bod yn rhaid iddyn nhw ail drafod i sicrhau nad yw'r cyfanswm ddim yn fwy na dim yn llai na £30. Dylai pob person gyflwyno'i achos, gan ddefnyddio'r cardiau rôl. Anogwch nhw i gyfiawnhau pam eu bod wedi gwneud eu dewisiadau. Pan fo cytundeb wedi ei gyrraedd, cofnodwch bob swm gaiff ei drafod yn y golofn 'Cyfran a Drafodwyd' yn y siart.
- Gallwch wedyn ddatgelu cyfraneddau gwirioneddol bob cam o'r dilyniant cynhyrchu trwy eu rhestru yn y golofn 'Gwir Gyfran'.
- Gofynnwch i bob grŵp a ydyn nhw'n fodlon â'r gwir gyfran o'r pris gwerthu maen nhw wedi ei dderbyn.

**Cyfarfod Llawn**
Pwy sy'n gwneud yr elw mwyaf o'r cynhyrchu dillad byd-eang ac a yw'r sefyllfa yma'n deg?

**Adnodd C: Dadansoddiad o'r broses fasnachu**

(llungopïwch y dudalen hon ar gyfer y disgyblion sy'n chwarae rhannau)

*Cyflog gweithiwr*



⇩

*Perchennog ffatri*



⇩

*Cludwr*



⇩

*Cwmni Dillad Rhyngwladol – (nod masnach)*

⇩

*Mân-werthwr / Siop*



**Adnodd D**

| | Cyfran Gychwynnol | Cyfran a Drafodwyd | Gwir Gyfran |
|---|---|---|---|
| *Cyflog gweithiwr* | | | |
| *Perchennog Ffatri* | | | |
| *Cludwr* | | | |
| *Nod Masnach* | | | |
| *Mân-werthwr / Siop* | | | |

## Adnodd E: Cardiau Rôl

**Casglwyr Cotwm**
Rydych chi'n byw mewn ardal wledig ac yn casglu cotwm am 14 awr y dydd, yn gweithio oriau hir. Mae'r gwaith rydych chi'n ei wneud yn llafur corfforol, caled dan amodau poeth. Mae'n rhaid i chi aredig y tir, hau'r hadau, teneuo'r planhigion ifanc, chwynnu'r tir, ychwanegu gwrtaith. Mae'r gwrtaith mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio'n aml yn wenwynig, ac fe allan nhw beryglu'ch iechyd. Mae'r arian a enillir trwy allforio cotwm yn bwysig i ddatblygiad eich gwlad. Rydych yn poeni am gael digon o arian i brynu bwyd, talu biliau meddygol neu anfon eich plant i'r ysgol. Efallai na allwch gyfarfod â gweithwyr eraill i gwyno am eich cyflog, y modd rydych yn cael eich trin yn y gwaith neu ble rydych yn byw. Ceisir eich perswadio i beidio ag ymuno ag undeb llafur.

**Perchennog Ffatri**
Eich cyfrifoldeb chi yw bod y dillad yn cael eu gwneud. Rhaid eu bod yn cael eu gwneud yn dda ac mewn pryd. Rydych angen arian i brynu'r defnyddiau; ffabrig, mwclis, botymau, labeli, sips ac ati. Eich gweithwyr sy'n gyfrifol am dorri a gwnïo'r dillad terfynol at ei gilydd. Rydych chi'n gweithio mewn swyddfa yn trafod prisiau, yn cydlynu cludo gwahanol ddefnyddiau ac yn rheoli gweithwyr ffatri. Bydd rhaid i chi addo i'r cwmnïau dillad a'r mân-werthwyr y gallwch gwrdd â'u galw am ddillad bob wythnos. Bydd yn rhaid i chi gadw at yr addewidion, hyd yn oed os aiff rhywbeth o'i le yn y gadwyn gyflenwi a bod rhywun yn eich siomi.

**Cludwr**
Rydych chi'n gweithio 6 diwrnod yr wythnos ac mae gennych deulu a 3 o blant. Gall eich costau gynnwys:
Llongau: Mae llongau cargo mawr yn ddrud iawn i'w prynu a'u cadw mewn cyflwr da.
Tanwydd: Mae'n rhaid i chi dalu am danwydd i'r llongau a all fod ar y môr am hyd at bum wythnos.
Yswiriant: Os yw cargo'n cael ei golli neu ei niweidio, efallai mai arnoch chi mae'r bai ac efallai y bydd rhaid i chi dalu amdano.
Ffi trwydded: Bydd rhaid i chi dalu am drwydded mewnforio i ddod â'ch cynnyrch i mewn i'r Undeb Ewropeaidd.
Ffioedd y porthladd: Bydd rhaid i chi dalu i'ch llongau gael bod mewn porthladd bob pen i'r daith ar y môr.

**Cwmni Dillad Rhyngwladol / Nod masnach**
Bob blwyddyn rydych yn ceisio ennill cyfran fwy o'r farchnad, ond mae defnyddwyr yn disgwyl mwy a mwy, eisiau prynu dillad o ansawdd da'n rhatach. Mae gennych arbenigwyr marchnata'n gweithio i'ch brand, ond y pris yw'r ffactor sy'n denu sylw'r defnyddwyr, yn enwedig nwyddau â disgownt, rhai mae'n rhaid iddyn nhw hefyd wneud elw er mwyn bodloni buddsoddwyr. Y ffordd fwyaf proffidiol ymlaen yw symud cynhyrchu i wlad dlotach gyda llai o reoliadau cyflogi, lle mae llywodraethau'n barod i roi consesiynau treth a heb boeni'n ormodol am yr amgylchedd na'r amodau gwaith mewn ffatrïoedd fel y gallan nhw barhau mewn grym. Yn gyffredinol does dim angen i chi boeni am amodau gwaith mewn ffatrïoedd. Rydych chi'n gweithio mewn swydd bwerus ac yn gyfrifol am gyflenwi'r gwahanol ddillad ar amser ac ateb gofynion cwsmeriaid. Rhaid i chi hefyd sicrhau mai chi yw'r brand ar y blaen.

**Mân-werthwr/Siop**
Fel mân-werthwr does gennych chi ddim sicrwydd y bydd pobl yn prynu'ch dillad. Rhaid i chi werthu'r dillad mae pobl eisiau eu prynu pan fyddan nhw am eu prynu, a all olygu cadw stoc helaeth. I werthu'ch stoc mae angen siop mewn man canolog, yng nghanol dinas neu ganolfan siopa er enghraifft, ond dyw'r safleoedd hyn ddim yn rhad. Rhaid i chi hefyd wneud eich siop yn ddeniadol sy'n golygu addurno drud. Rydych ar ddiwedd y broses gynhyrchu ac yn fwyaf agored i ofynion y cwsmer, mae angen i chi wneud elw da ar eich dillad i'ch helpu drwy'r adegau gwael.

# Problemau ffermio cotwm – yr hyn sy'n eu hachosi
# Pam pam pam?

## Amcan:

- Annog disgyblion i ystyried y problemau su'n wynebu'r diwydiant ffermio cotwm.
- Annog disgyblion i ystyried achosion a chanlyniadau.

## Beth i'w wneud:

Cyflwyno 5 gwahanol broblem sy'n codi o gynhyrchu cotwm i'r disgyblion (Adnodd G). Gofynnwch i'r disgyblion i ddarllen y problemau ac ystyried pam y gwnaethon nhw godi.

**Taflu pêl – edrych ar achosion**

*Noder: Gallwch un ai wneud y gweithgaredd taflu pêl cyn y daflen waith, i ddeffro meddyliau ynglŷn â'r achosion, neu ar ôl y daflen waith (Adnodd H) er mwyn cadarnhau'r syniadau am yr achosion.*

- Mae Adnodd G yn dangos y 5 prif broblem ar hyn o bryd ym maes ffermio cotwm, ond eglurwch i'r disgyblion ein bod eisiau edrych ar ddadansoddiad o'r holl achosion gwahanol.
- Y disgyblion i sefyll mewn cylch. Mae gan yr athro bêl ac mae'n dechrau trwy weiddi un o'r 5 problem a restrir yn adnodd G. Mae'r problemau hyn yn bod o ganlyniad i ffermio cotwm. Gofynnwch i'r disgyblion godi eu llaw os gallan nhw feddwl am achos - pam fod y broblem hon yn digwydd?
- Taflwch y bêl i un o'r disgyblion â'u llaw i fyny a gofynnwch iddo roi ei reswm. Gofynnwch i'r dosbarth i feddwl am yr achos nesaf i'r un sydd newydd ei roi gan y person â'r bêl. Dywedwch wrth y person â'r bêl i'w phasio i'r person â'i law i fyny. Parhewch nes i'r dosbarth fethu meddwl am ragor.

** Noder, os nad yw'r dosbarth yn gyfarwydd â'r fformat, gallwch roi tro ar fater maen nhw'n gyfarwydd ag ef. Er enghraifft, cefais fy nghadw i mewn yn yr ysgol heddiw 'pam?' 'oherwydd na wnes i fy ngwaith cartref' 'pam' 'oherwydd i mi gael noson hwyr' 'pam' 'oherwydd i mi dreulio amser gyda fy ffrindiau' 'pam' 'oherwydd mod i wedi bod yn drist yn ddiweddar' pam 'oherwydd bod y ci wedi marw'. Mae dweud y gair 'pam' rhwng bob un yn gallu helpu.*

Defnyddiwch y daflen waith (adnodd H) a gofynnwch i'r disgyblion i lenwi'r bylchau gydag achosion posibl.

**Cwestiynau i'w trafod:**

Dylai edrych ar achos a chanlyniadau annog dealltwriaeth o wahanol rannau o'r broses a chodi cwestiynau, e.e. gall nifer o achosion y problemau gael eu cysylltu â phobl o'r gorllewin, megis y galw am ffasiwn gyflym a rhad. A yw'r gadwyn canlyniadau wedi codi ymwybyddiaeth o sut y gall bywydau pobl mewn un rhan o'r byd effeithio ar fywydau pobl mewn rhan arall o'r byd?

## Adnodd G: Pum gwahanol broblem a achosir gan gynhyrchu cotwm
Addasiwyd o waith gan Environmental Justice Foundation (EJF)

### Llafur plant
Yn Uzbekistan - yr ail allforiwr cotwm mwyaf yn y byd - mae'r llywodraeth yn gorchymyn i gannoedd o filoedd o blant - rhai mor ifanc â saith mlwydd oed - i gynaeafu'r cnwd cotwm blynyddol. Mae'n waith caled ychydig iawn o dâl neu ddim tâl o gwbl. Dyw cotwm ddim o fudd i'r tlodion gwledig, ond mae'r unbennaeth sy'n rheoli, yn ennill miloedd o allforio cotwm. Yn Andhra Pradesh, India, mae dros 100,000 o blant wedi cael eu cofnodi'n gweithio am 13 awr y dydd am ddim ond 50 o sentiau Americanaidd. Yng Ngorllewin Affrica, mae plant yn cael eu gwerthu i weithio yn y caeau cotwm.

### Plaladdwyr
Mae bron hanner y cemegolion a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu cotwm yn cael eu cyfri'n ddigon gwenwynig i gael eu cyfri'n 'beryglus' gan Sefydliad Iechyd y Byd. Amcangyfrifir bod rhwng 1 miliwn a 5 miliwn achos o wenwyno gan blaladdwyr yn digwydd bob blwyddyn, gan achosi 20,000 o farwolaethau ymhlith gweithwyr amaethyddol ac o leiaf 1 miliwn angen triniaeth mewn ysbyty. Aldicarb, gwenwyn nerfol cryf, yw un o'r plaladdwyr mwyaf gwenwynig a roddir ar gotwm, ac eto dyma'r ail blaladdwr mwyaf cyffredin gaiff ei ddefnyddio mewn cynhyrchu cotwm. *Byddai un llond llwy de o aldicarb ar y croen yn ddigon i ladd oedolyn.*

### Cymorthdaliadau o'r America
Ceir cymorthdaliadau pan fo llywodraethau'n talu arian ychwanegol i ffermwyr am eu cnydau. Gall llywodraethau wneud hyn i sicrhau bod y cnwd yn gwerthu'n dda ac i greu swyddi i bobl yn eu gwlad. Mae llywodraeth America'n rhoi cymorthdaliadau (arian ychwanegol) i ffermwyr cotwm yn America, sy'n ei gwneud yn anodd i ffermwyr eraill gystadlu. Mae'n gyrru prisiau i lawr, ac mae'r canlyniad yn andwyol i wledydd sy'n datblygu. Mae hyd at 99% o ffermwyr cotwm y byd yn byw ac yn gweithio yn y byd datblygedig. Er bod ffermwyr cotwm ym Malia, er enghraifft, yn cynhyrchu cotwm yn fwy effeithiol ac yn rhatach na ffermwyr America, mae ffermwyr yn gorfod ymdrechu'n galed i dalu am bethau sylfaenol bywyd, megis gofal iechyd ac addysg ar gyfer eu plant ac fe'u gorfodir i ddioddef tlodi eithafol.

### Dyled a Hunanladdiad
Mae ffermwyr cotwm yn cael eu gorfodi i ddyled. Mae cwmnïau Rhyngwladol mawrion yn codi ffortiwn am y gwrtaith sydd ei angen, yna maen nhw'n prynu cotwm am ffracsiwn o gost cynhyrchu'r cotwm. Mae ffermwyr yn cael eu gorfodi i fenthyg arian ar logau uchel. Roedd ffermwyr cotwm yn yr India'n cyflawni hunanladdiad oherwydd nad oedden nhw'n gallu talu eu dyledion. Ac yn ogystal â hyn, i ladd eu hunain roedden nhw'n yfed y cemegolion gwenwynig roedden nhw'n eu defnyddio i chwistrellu eu cnydau.

### Amodau gweithwyr
Doedd nifer o weithwyr ddim yn cael dillad diogelwch wrth gasglu cotwm. Yn Uzbekistan, mae'n rhaid i weithwyr yfed yn syth o'r camlesi dyfrio (h.y. maen nhw'n yfed yr un dŵr gaiff ei ddefnyddio ar gyfer y cnydau). Yn aml iawn fe'u ceir yn gwisgo sandalau, a heb ddillad diogelwch. Mae'r cotwm yn cael ei gasglu â llaw, ac mae disgwyl i'r gweithwyr gario sachau trymion. Maen nhw'n cael eu gorfodi i weithio gan y llywodraeth a does ganddyn nhw ddim dewis. Ychydig iawn o arian maen nhw'n ei dderbyn, sydd ddim yn ddigon i fyw arno.

Am fwy o wybodaeth ewch: www.ejfoundation.org

Ar ei orau ar faint A3

**Adnodd H: Cadwyn pam pam pam**

Archwilio materion yn y diwydiant cotwm – edrych ar achosion

| | Pam → | Pam → | Pam → | Pam → |
|---|---|---|---|---|
| **Llafur Plant Gorfodol** – mae plant yn gweithio yn y caeau yn pigo cotwm | E.e. Gan nad oedd gan y teulu ddigon o arian roedden nhw'n anfon y plant i weithio | E.e. Does dim cyfraith lleiafswm cyflog yn eu gwlad ar gyfer rhieni chwaith | E.e. Oherwydd ei fod yn annog mwy o ddiwydiant a buddsoddiad tramor | E.e. Oherwydd bod pobl o'r gorllewin yn galw am fwy o nwyddau |
| **Plalddwyr** Rhaid i ffermwyr ddefnyddio plalddwyr peryglus ar eu cnydau gan effeithio ar iechyd yn aml | | | | |
| **Cymorthdaliadau o'r UDA** Mae ffermwyr cotwm yn brwydro i gystadlu neu maen nhw'n mynd allan o fusnes a cholli eu cartrefi | | | | |
| **Amodau gweithwyr** Mae gweithwyr yn aml yn cael eu trin yn wael. Dydyn nhw ddim yn cael dillad diogel ac o'r herwydd mae eu hiechyd yn dioddef | | | | |
| **Dyled a Hunanladdiad** Mae gweithwyr yn mynd i ddyled gynyddol. Heb ffordd allan mae nifer yn cyflawni hunanladdiad | | | | |

# Masnach Deg

Mae Masnach Deg yn fecanwaith masnachu amgen, a thrwyddo mae gweithwyr yn derbyn pris teg a chyson.

## Amcanion:

Helpu disgyblion i nodi rhai camau y gallan nhw'u cymryd o gwmpas materion yn ymwneud â masnach a thlodi
Deall bod Masnach Deg yn bwnc a all helpu disgyblion i nodi mewn ffordd bendant sut allen nhw wneud gwahaniaeth.

## Beth i'w wneud:

Gofynnwch i ddisgyblion ymchwilio i 5 gwarant o Fasnach Deg a'u cysylltu â mater neu broblem sy'n codi o ffermio cotwm (adnodd G). Efallai y bydden nhw'n ei chael yn ddefnyddiol i ddefnyddio'r rhyngrwyd i wneud mwy o ymchwil am y 5 Gwarant Masnach Deg isod. Sut mae'r warant gan Fasnach Deg yn helpu i osgoi'r problemau a wynebit gan ffermwyr?

1) Pris teg a chyson
2) Dim caethwasiaeth ymhlith plant
3) Amodau gweithio diogel
4) Amddiffyniad ar gyfer yr amgylchedd
5) Premiwm cymdeithasol

→ Gwefan ddefnyddiol: www.fairtrade.org.uk

| Y broblem a gododd | Gwarant Masnach Deg, sut mae'n helpu i daclo'r broblem a gododd. |
|---|---|
| | |

## Pethau y gallwch eu gwneud sy'n gwneud gwahaniaeth

Mae yna restr isod. Gall ysgrifennu llythyr ffurfio rhan o wers Saesneg, gan ddefnyddio iaith llawn perswâd a sgiliau llythrennedd.

- Gofynnwch i'ch hoff siop ddillad werthu mwy o eitemau o ddillad Masnach Deg
- Ymchwiliwch i wisgoedd ysgol Masnach Deg
- Dewch yn Ysgol Masnach Deg, mae hyn yn golygu 5 gôl:

> - Sefydlwch Grŵp Llywio gydag o leiaf hanner yr aelodau'n ddisgyblion ac sy'n cwrdd o leiaf unwaith y tymor.
> - Ysgrifennwch a mabwysiadwch Bolisi Masnach Deg a fydd yn cael cefnogaeth y bwrdd Llywodraethwyr a'i lofnodi gan y Prifathro.
> - Defnyddiwch a gwerthwch nwyddau Masnach Deg gymaint â phosibl.
> - Dysgwch am Fasnach Deg mewn o leiaf dri phwnc mewn dau grŵp blynyddoedd.
> - Gweithredwch ar ran Masnach Deg o leiaf unwaith y tymor yn yr ysgol ac unwaith y flwyddyn yn y gymuned.

- Cynhaliwch ddiwrnod codi ymwybyddiaeth o Fasnach Deg yn yr ysgol
- Cysylltwch â'ch grŵp tref Masnach Deg lleol

## Gweithred: Ysgrifennwch lythyr i'ch hoff fân-werthwr

Gallwch ddewis ysgrifennu llythyr am ddillad ffasiynol neu am gadw stoc o wisg ysgol Masnach Deg.

> **Côd 'dillad glân'**
> Wnawn ni ddim prynu ond oddi wrth wneuthurwyr sy'n:
> - Casglu cotwm yn ofalus
> - Peidio â defnyddio llafur gorfodol gan blant unrhyw le yn y gadwyn gyflenwi
> - Trin eu gweithwyr yn deg
> - Rhoi swyddi diogel i'r holl weithwyr
> - Sicrhau bod cyflogau rhesymol yn cael eu talu ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi
> - Yn hytrach na gwrthod prynu o lefydd sydd ddim yn cwrdd â'r amodau hyn, fe fydden ni'n annog gwneuthurwyr i weithio gyda chyflenwyr (ffatrïoedd a chynhyrchwyr cotwm) i newid eu harferion.

## Oddi wrth y Llafur y tu ôl i'r Label

Mae'n bosibl mai ysgrifennu llythyr at gwmni am hawliau gweithwyr yw'r ffordd mwyaf grymus i gyflawni newidiadau mewn amodau gwaith. Pam? Oherwydd ei god yn dangos i gwmnïau bod defnyddwyr yn pryderu, ac mae ymateb i ofynion defnyddwyr yn golygu gwneud mwy o arian, a dyma'r ffordd maen nhw'n cael eu gyrru.

Pan fo defnyddwyr yn dweud wrth gwmnïau eu bod eisiau i'w dillad gael eu cynhyrchu dan amodau derbyniol, dyna pryd rydyn ni wedi gweld gwelliannau: dyna pam mae cwmnïau y rhoddwyd pwysau arnyn nhw yn 1990au, fel Nike a Gap, wedi dechrau cymryd camau i wella amodau yn eu cadwyni cyflenwi.
Mae yna ffordd bell i fynd, felly daliwch i ysgrifennu!

## Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu llythyrau

### Gofyn cwestiynau penodol

Rhan amlaf bydd cwmnïau'n ymateb gydag ateb stoc oddi wrth eu hadran Cysylltiadau Cyhoeddus, felly mae angen i chi ofyn cwestiynau na ellir eu hosgoi'n hawdd. Yn hytrach na "Allech chi ddweud wrtha i beth ydych chi'n ei wneud am amodau gweithwyr", dylech ofyn cwestiynau fel "Pa brawf sydd gennych fod amodau gwaith yn dderbyniol?" "Ble mae'ch dillad yn cael eu cynhyrchu?", "Faint mae gweithwyr yn cael eu talu?", "Sawl eitem Masnach Deg ydych chi'n eu cadw?", "Pam nad ydych chi'n cadw mwy o ddillad Masnach Deg?" ac "Oes ganddoch chi gynlluniau i stocio mwy o eitemau Masnach Deg?"

### Gwnewch hi'n glir eich bod yn disgwyl ateb

Gallech orffen y llythyr gyda brawddeg debyg i: 'Rydw i'n edrych ymlaen at glywed gennych yn fuan yn rhoi'ch ymateb i'r pwyntiau a godwyd' (Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ysgrifennu'ch cyfeiriad post neu e-bost ar dop y dudalen).

### Cadwch mewn cysylltiad â ni

Anfonwch gopi at Fasnach Deg Cymru. Rydyn ni wrth eich bod yn cael gwybod faint o bobl sy'n gweithredu ar y materion hyn. Gallwn hefyd ddilyn y trywydd ar eich rhan a dangos bwndeli o lythyrau i fân-werthwyr a swyddogion y llywodraeth, e-bostiwch y llythyr aton ni ar schools@fairtradewales.com <mailto:schools@fairtradewales.com>

### Daliwch ati!

Os nad ydych yn teimlo bod y cwmni wedi ymateb yn ddigonol i'ch llythyr neu os nad ydych yn cael eich argyhoeddi gan eu hateb yna anfonwch ymateb atyn nhw.

**Rhowch eich cyfeiriad a'r dyddiad ar y llythyr**

**Annwyl (os gallwch chi dreulio ychydig amser ymlaen llaw yn dod o hyd i enw rhywun y gallwch gyfeirio'r llythyr iddo, gall eich llythyr gael mwy o effaith, gan ei bod yn gyfrifoldeb ar rhywun i ymateb). Efallai y gallwch ddod o hyd u enw'r rheolwr gwasanaethau cwsmeriaid neu eu prif weithredwr ar eu gwefan. Neu gallwch ffonio i ofyn, Os na chewch chi enw ysgrifennwch at yr adran gwasanaethau cwsmeriaid, bydd eu cyfeiriad bron bob amser ar eu gwefan.**

**Cyflwynwch eich hun, eich enw, eich oed ac ym mha ardal rydych yn byw. Mae cwmnïau'n fwy tebygol o ymateb os mai eu cwsmeriaid eu hunan sy'n holi, felly cyflwynwch eich hun fel cwsmer. Os oes gennych label neu dderbynneb am rhywbeth rydych wedi ei brynu efallai y gallech gynnwys hwn gyda'r llythyr.**

**Yn y paragraff hwn gallwch roi mwy o fanylion ynglŷn â pham rydych yn ysgrifennu. Gallwch gynnwys:**

- **Beth rydych chi wedi ei ganfod neu wedi darllen amdano**
- **Pam rydych chi'n poeni am y materion hyn**

**Ceisiwch ddefnyddio iaith fydd yn perswadio ond byddwch yn foneddigaidd a chwrtais.**
**Gallwch wneud hyn trwy gyfansoddi'r llythyr mewn modd sy'n awgrymu bod ganddoch chi ddiddordeb yn yr hyn maen nhw'n ei wneud am y materion hyn ac yn agored i'r hyn sydd ganddyn nhw i'w ddweud.**

**Yn olaf yn yr adran hon gallwch gynnwys yr hyn rydych chi'n feddwl y gallan nhw'i wneud am y broblem, sut ydych chi'n meddwl y gallan nhw helpu, a pham eich bod yn teimlo'i bod yn bwysig iddyn nhw helpu ar y mater hwn.**

**Cofiwch ofyn cwestiynau penodol, neu fel arall efallai y cewch chi ateb stoc.**

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi ac yn printio'ch enw**

**Gwisg Ysgol**

Dechreuwch trwy wneud arolwg yn yr ysgol i weld faint o bobl fyddai'n fodlon prynu Gwisg Ysgol Masnach Deg. Efallai nad yw rhai disgyblion yn ymwybodol o'r materion perthnasol felly efallai y bydd angen i chi ddechrau trwy gynnal gwasanaeth ar Fasnach Deg neu ddweud ychydig wrthyn nhw am y materion perthnasol. Efallai y byddai'n well dewis un neu ddau bwnc. Defnyddiwch siart cyfrif ar dabl tebyg i'r un isod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynrychioli barn y disgyblion ac nid eich barn chi'ch hunan. Os nad yw'r disgyblion yn dweud yr hyn rydych chi eisiau iddyn nhw'i ddweud, efallai y bydd angen i chi wneud mwy o godi ymwybyddiaeth yn yr ysgol. Efallai hefyd y bydd angen i chi godi ymwybyddiaeth ymhlith athrawon a rhieni.

Pa fath o Wisg Ysgol ydych chi ei heisiau?

| Gwisg nad yw'n un Fasnach Deg | Gwisg Masnach Deg |
|---|---|
| | |

Pan fo gennych chi ddigon o gefnogaeth disgyblion, rhieni ac athrawon, dylech wedyn fynd at eich cyflenwr gwisg ysgol a gofyn a fydden nhw'n fodlon stocio dewis Masnach Deg, gan ddangos y gefnogaeth sydd gennych o'r ysgol. Gallwch hefyd chwilio am gyflenwyr gwisg ysgol Masnach Deg (Mae'r rhestr ar gael ar www.fairtradewales.com/schools/resources/493)

Photography: Crispin Hughes, Helen Palmer, Oxfam, www.tenfoldorganic.com, Glenn Edwards